COFNODION DRAFFT CYNGOR BRO LLANGELER – 31 – 10 – 2022

Cofnodion Drafft Cyfarfod Nos Lun Hydref 31ain 2022 am 7.30y.h. yn Neuadd y Ddraig Goch

1. **10/22 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. Delyth Evans Cynghorwyr:, John Crossley, Richard Evans, Angharad Edwards, Aled Eynon, Ken Howell, Dilwyn Smith, Adrian Thomas . Clerc – Stella Jones.
Hefyd yn Bresennol: Cynghorydd Sir Hazel Evans
Croesawodd y Cadeirydd y Clerc nôl i'r cyfarfod cyntaf wyneb yn wyneb ers y Cofid.

2. **10/22 YMDDIHEURIADAU:** Cyng:- Jamie Ayres, Marc Rees, Antoni Schiavone, Eleri Samson,

3. **10/22 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** ni fydd y Cyng K Howell yn cymryd rhan yn y drafodaeth yn adran Ceisiadau Cynllunio a ddaw gerbron y Cyngor.
Cyllid: 9.1.b. Cyng H Evans – cyflog clerc

4. **10/22 HEDDLU:** – PCSO J Kedward – *dwedodd Cynghorwyr bod ceir yn gor-yrru drwy bentref Velindre a'r parcio ar tro rhyw Pensarn.*

5. 1**0/22 COFNODION:** i. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Misol Medi 26ain 2022.
Cynnig – Cyng Ken Howell Eilio – Cyng John Crossley

6. **10/22 MATERION YN CODI COFNODION**
6.xx. Lês Cae Chwarae Maesyderi, Pentrecwrt – *dwedodd Y Cyng K Howell bod pwyllgor Parc Pentrecwrt yn edrych mewn i gau'r parc gan nad oedd y bobol leol yn credu bod angen y parc chwarae am fod dim lawer o blant yn y pentref bellach.*
10.ii.05/21 Ciosgau Ffôn – *Owain Thomas wedi gorffen y gwaith*
10.iii.05/21 Bwrdd Llwybrau Gwlân + Cwmhiraeth – *Owain Thomas i fod wedi gorffen y gwaith.*
7.i.04/22 Tir y Cyngor yn Waungilwen – *Clerc wedi siarad a Geraint James o gwmni Dai Lewis ac roedd yn credu dylai'r pris fod Yn £250 y flwyddyn, y clerc wedi ceisio ffonio T Jones ynglyn a'r pris ond ni chafodd ateb ar y ffôn .*
10.2.06/22 Cinio'r Cadeirydd – *cytunwyd byddai i gymryd lle yn y flwyddyn newydd.*
11.1.06/22 Hysbysfwrdd T Llew Jones – *Cyng Antoni Schiavone yn mynd i gadw mewn cysylltiad a Choed y Bryn i gael gweld beth fydda nhw wedi ddarganfod am y gwaith digidol gwreiddiol – nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod i roi'r diweddaraf.*
11.2.06/22 Polyn Baner – *Barry Evans wedi bod lan i farcio lle mae'r polyn i'w osod*
10.i.09/22 Cod Ymddygiad – i'w ail drefnu ar gyfer 2023

7. **10/22 GOHEBIAETH:**
i. ebost – CAVS – 'Warm Spaces' – cylchlythyrwyd
ii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 26.09.22 - 30.09.2022 – cylchlythyrwyd
iii. ebost – ULLC & Llywod. Cymru– Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol – cylchlythyrwyd
iv. ebost – CSG – Newyddion diweddaraf – *cylchlythyrwyd*
v. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 03.10.22 - 07.10.2022 – cylchlythyrwyd
vi. ebost – Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2023 | Independent Remuneration Panel for Wales Draft Annual Report - February 2023 – cylchlythyrwyd
vii. ebost – CSG – Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned – cylchlythyrwyd
viii. ebost – Royal British Legion's new grant scheme for veterans and their families – cylchlythyrwyd
ix. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 10.10.22 - 21.10.2022 – cylchlythyrwyd –
x. ebost – ULIC : – Yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn ymgeisiau twyll ar-lein - cylchlythyrwyd
xi. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 17.10.22 - 14.10.2022 – cylchythyrwyd
xiii. ebost – Cylchlythyr Hydref CIC Hywel Dda – cylchlythyrwyd
xiv. ebost – ULIC – Cynhadledd Cyntaf Cymru ar Bioamrywiaeth - cylchlythyrwyd
xv. ebost – Cymdeithas Cymru - Fforwm Tynged yr Iaith Sir Gâr: Addysg yw'r Allwedd - 15/10 – cylchlythyrwyd
xvi. ebost – Polisi Drafft Enwi a Rhifo Strydoedd Sir Gaerfyrddin – cylchlythyrwyd
xvii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 24.10.22 - 28.10.2022 - cylchlythyrwyd
xviii. ebost – CSG – Digwyddiad Gwarantu Pobl Ifanc Cymunedau am Waith + Tachwedd 17 2022 – cylchlythyrwyd
xix. ebost - ULIC: Cynllun Cymorth Tanwydd Cymru - cylchlythyrwyd
xx. ebost - Understanding Welsh Places Newsletter – cylchlythyrwyd

8. **10/22 CYNLLUNIO**
CEISIADAU CYNLLUNIO - YMGYNGHORI / *PLANNING APPLICATION CONSULTATION*
Cais Ymgynghori llawn
PL/04900 – Atgywierio niwed i dalcen gogledd-dwyreiniol prif adeilad y Felin lle bydd rhaid gosod fewn angorion dur fel atalfa ystlysol i'r craciau sydd yn waliau ochrol y talcen gogledd-ddwyreiniol. Pwyntio'r gwaith cerrig. Ail godi y darn trionglog o'r gwaith cerrig a'r lintel fwaog brics uwchben y ffenestr uchaf yn y talcen. Atgyweirio ac ailosod y lintels pren tu fewn yr run ffenestr. Trwsio y simnai frics, gan gynnwys ailosod y lapiad plwm – National Woollen Museum, Velindre, Llandysul, SA44 5UP – *cytuno*
PL/04897 – Amrywiad o amod 2 ar W/39037 Pwmp Gwres Ffynhonnel Aer (cynlluniau a gymeradwywyd) - Plot 8, Hafod Hedd, Saron, Llandysul, SA44 5DR – *dim gwrthwynebiad*

_____ Cadeirydd _____ Dyddiad

COPI DRAFFT

9. 10/22 MATERION ARIANNOL

1. a. Anfonebau

TRYWYDD [caniatad i'w dalu pan daw'r anfoneb].....£ dim
HMRC (Hydref) £130.00
OWAIN THOMAS [gwaith cynnal a chadw £765.00
HIRIO NEUADD y DDRAIG GOCH HIRE[cyfarfod Hydref].....£10.50
* RYAN JONES[trasio Llwybrau] £1,600.00

Arian yn y Banc ar 12/10/2022.....£37,970.48

b. S/O

Cyflog y Clerk £530.00

c. Credid

Tristan Jones £100.00
Cwmins Cwmhiraeth £225.00

2. Apêl am Nawdd Ariannol / Financial Support

Dim / *None*

10. 09/22 MATERION ANGEN TRAFODAETH

i. Sul y Cofio – Bydd y Gwasanaeth ar 13eg Tachwedd mae Mr Showell yn barod i gymyd rhan, ynghyd a'r ddwy ysgol leol a'r sefydliadau a chymdeithasau lleol.

ii. Byrddau Gwlân – nodwyd bod y CD gyda gwybodaeth y byrddau wedi dod i glawr gyda Phwyllgor Hanes y pentref – *mae Cadeirydd yn mynd i edrych cael gweld beth yw cynnwys y ddisg.*

11. 10/22 SYLWADAU'R CYNGHORWYR

1. Cyng Adrian Thomas – i. nid yw'r golau stryd ger Jewson, Pont Tyweli yn gweithio
   ii. mae eisiau glanhau'r draeniau yn Stryd yr orsaf Pont Tyweli
2. Cyng Aled Eynon – i. mae coeden fawr yn goleddu dros yr heol ar waelod rhyw Blaenbuarthe.

12. 10/22 CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod Misol nesaf nos Lun Tachwedd 28ain 2022 am 7.30yh yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00yh

_____ Cadeirydd Dyddiad _____

COPI DRAFFT

.